

Cynllun Gweithlu Amenedigol Strategol 2025 - 2028

Adroddiad Blynyddol: Blwyddyn 1, 2025 - 26

GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Cynnwys

Rhagair....1

Cyflwyniad....2

Llywodraethiant ac Atebolrwydd....3

Mesur Effaith....3

Cynnydd yn Erbyn Themâu Strategol....3

1. Datblygu'r Gweithlu Aml-broffesiwn....4

2. Addysg a Hyfforddiant....6

3. Arweinyddiaeth a Diwylliant....10

4. Trawsnewid y Gweithlu....12

Heriau a Dysgu....13

Edrych i'r dyfodol: Blaenoriaethau ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3....14

Casgliadau....15

Cyfeiriadau....16

Atodiad un – Data Gweithlu....18



Rhagair

Wrth i Flwyddyn 1 o'r **Cynllun Gweithlu Amenedigol Strategol 2025 - 2028** ddod i ben, mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn myfyrio ar y cynnydd a wnaed o ran cryfhau'r gweithlu sy'n cefnogi gwasanaethau amenedigol ledled Cymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal i fenywod, pobl sy'n rhoi genedigaeth, babanod a theuluoedd drwy gydol y llwybr mamolaeth a newyddenedigol, gan gynnwys allgymorth newyddenedigol, ac maent yn dibynnu ar weithlu amlbroffesiwn medrus, cynaliadwy a thrugarog.

Mae eleni wedi canolbwyntio ar adeiladu sylfeini cryf: gwella gwybodaeth am y gweithlu a chynllunio ar ei gyfer, cefnogi recriwtio a chadw staff, a chryfhau addysg a datblygiad. Mae'r cynnydd yn adlewyrchu ymrwymiad cydweithwyr ar draws GIG Cymru, addysg uwch a chyrff proffesiynol, ochr yn ochr â mewnwelediad defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid. Diolchwn i bawb sydd ynghlwm â hyn ac edrychwn ymlaen at Flwyddyn 2 gyda ffocws parhaus ar ofal amenedigol diogel, teg ac o ansawdd da i bobl Cymru.





Sam Donohue
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Iechyd Proffesiynol ac Ansawdd

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Gweithlu Amenedigol Strategol 2025 - 2028 yn nodi dull gweithredu a rennir i ddatblygu gweithlu cynaliadwy, medrus a thrugarog ar draws gwasanaethau mamolaeth ac amenedigol yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd ar ddarpariaeth Blwyddyn 1, gan amlygu'r cyflawniadau allweddol, y canlyniadau cynnar a'r sylfeini a sefydlwyd ar gyfer trawsnewid y gweithlu yn y tymor hwy.



Llywodraethiant ac Atebolrwydd

Mae cyflawniad y Cynllun yn cael ei oruchwylio drwy drefniadau llywodraethu cenedlaethol, gan gynnwys grŵp llywio pwrpasol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o GIG Cymru, Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner allweddol. Mae'r cynnydd yn cael ei fonitro drwy adroddiadau rheolaidd ac fe'i cefnogir gan wybodaeth am y gweithlu sy'n esblygu, gyda risgiau a phroblemau wedi'u huwchraddio drwy lwybrau llywodraethiant sefydledig AaGIC. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd ffurfiol ar ddarpariaeth Blwyddyn 1 ac yn cefnogi tryloywder ac atebolrwydd i Fwrdd AaGIC, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Mesur Effaith

Mae mesur effaith ymyriadau datblygu'r gweithlu ar draws system iechyd a gofal cymhleth yn heriol. Mae'r gweithlu, y gwasanaeth a chanlyniadau i fenywod, babanod a theuluoedd yn cael eu dylanwadu gan amrywiaeth o ffactorau sy'n rhyngweithio, sy'n golygu mai yn anaml y mae'n bosibl arddangos perthynas achos ac effaith uniongyrchol rhwng ymyriad sengl a chanlyniad a arsylwir. Mae'r adroddiad hwn felly'n canolbwyntio ar gyflwyno tystiolaeth o gyfraniad y **Cynllun Gweithlu Amenedigol Strategol** at wella'r system gyfan.

Mae'r Cynllun wedi'i ategu gan ddull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gydag ymyriadau wedi'u dewis a'u datblygu ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, yr arferion gorau a chonsensws proffesiynol. Defnyddiwyd model rhesymeg a dull gweithredu ar sail cyfraniad i asesu sut y mae disgwyl i'r ymyriadau hyn gyfrannu at y canlyniadau a fwriedir, gan gydnabod mai anaml y mae priodoliad uniongyrchol yn bosibl mewn systemau cymhleth.

Mae'r adroddiad ar Flwyddyn 1 yn canolbwyntio'n bennaf ar gyrhaeddiad, gweithrediad a chanlyniadau cynnar, gan gynnwys y nifer sy'n dilyn rhaglenni addysg, y fframweithiau cenedlaethol sy'n cael eu mabwysiadu, ymgysylltiad ag adnoddau dysgu a gwelliannau yn yr wybodaeth am y gweithlu. Dros oes y Cynllun, bydd y dangosyddion hyn yn cael eu hategu gan fesurau ehangach ar y gweithlu, y gwasanaeth ac ansawdd i gryfhau dealltwriaeth o gyfraniad y Cynllun at gynaliadwyedd y gweithlu, ei brofiad, a chanlyniadau gofal amenedigol ledled Cymru.

Cynnydd yn Erbyn Themâu Strategol

Mae Blwyddyn 1 wedi symud y **Cynllun Gweithlu Amenedigol Strategol** o'i gyhoeddiad i'w gyflawniad. Er bod nifer o gamau wedi gosod y sylfeini ar gyfer trawsnewid y gweithlu a gwella'r gwasanaeth yn y tymor hwyr, mae'r cynnydd cynnar yn amlwg drwy wybodaeth gryfach am y gweithlu, mwy o gysondeb cenedlaethol mewn addysg a sicrwydd cymhwysedd, mynediad gwell at adnoddau goruchwylio a datblygu, a chyfleoedd estynedig i ddatblygu gallu arweinyddiaeth a gwella ledled Cymru.

Cyflwynir cynnydd ar sail aeddfedrwydd y dystiolaeth sydd ar gael. Mae'r **effaith gynnar** yn nodi'r dystiolaeth o newid cychwynnol; mae **cyrhaeddiad ac effaith gynnar** yn adrodd ynghylch cyfranogiad, defnydd a buddion sy'n ymddangos; mae effaith a ragwelir yn disgrifio'r buddion a ddisgwylir o weithgaredd nad yw wedi'i weithredu'n llawn eto; ac mae **cyfraniad at ganlyniadau tymor hwy** yn nodi'r gwaith sylfaen a ddisgwylir i gefnogi canlyniadau'r gweithlu, y gwasanaeth a gofal yn y dyfodol.

1. Datblygu'r Gweithlu Aml-broffesiwn

Yn unol â blaenoriaeth y Cynllun Strategol i sefydlogi a chadw'r gweithlu presennol wrth gryfhau'r cyflenwad yn y dyfodol, mae gweithgaredd Blwyddyn 1 wedi canolbwyntio ar gadw staff, gwybodaeth am y gweithlu a dealltwriaeth o'r llwybrau.

Cynnydd allweddol

Sefydlogrwydd y gweithlu a chadw staff

- **Gwnaeth dangosyddion sefydlogrwydd y gweithlu wella yn ystod Blwyddyn 1,** ochr yn ochr â mentrau cadw staff cenedlaethol a gweithgaredd wedi'i dargedu ar gyfer y gweithlu amenedigol.

  Effaith gynnar: Gwnaeth trosiant staff GIG Cymru ostwng o 8.1% i 7.5% rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2025, tra bod ymddiswyddiadau gwirfoddol wedi gostwng o 4.1% i 3.8%. O fewn bydwreigiaeth, gostyngodd y trosiant treigl dros 12 mis o 7.0% yn 2023 i 5.4% yn 2024 a 3.8% yn 2025. Er na ellir priodoli'r tueddiadau gweithlu ehangach hyn i'r Cynllun yn unig, maent yn dangos sefydlogrwydd gwell yn y gweithlu yn ystod cyfnod pan yr oedd mentrau cadw staff cenedlaethol a gweithgaredd wedi'i dargedu ar gyfer y gweithlu amenedigol yn cael eu cyflawni. Ewch i atodiad un i weld data ychwanegol ar y gweithlu.

Gwybodaeth am y gweithlu a chynllunio ar ei gyfer

- **Gwybodaeth gryfach ar y gweithlu** ar draws Obstetreg a Gynaecoleg, Pediatreg ac Anaestheteg drwy ddatblygiad Dangosfwrdd Tystysgrif Cwblhau Hyfforddiant, sy'n gwella gweledegd allbynnau recriwtio, cadw a hyfforddi.

  Cyfraniad at ganlyniadau tymor hwy: Mae'r dangosfwrdd yn cryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer cynllunio'r gweithlu drwy wella'r ddealltwriaeth o lwybrau cyflenwi'r gweithlu a hysbysu gofynion ymgynghorol y gweithlu yn y dyfodol.

- **Cwblhau arfarniad opsiynau** i gefnogi datblygiad dull gweithredu mwy cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer mesur aciwtedd a chynllunio'r gweithlu ledled Cymru.

  Cyfraniad at ganlyniadau tymor hwy: Mae'r gwaith hwn yn darparu sylfaen ar gyfer rhoi dull gweithredu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith i fesur aciwtedd a dibyniaeth ledled Cymru. Wrth i ofal mamolaeth ac amenedigol ddod yn fwyfwy cymhleth, bydd dull mesur safonol yn cryfhau'r wybodaeth

am y gweithlu a meincnodi, yn cefnogi asesu mwy cywir o'r galw ar y gweithlu, ac yn galluogi penderfyniadau cynllunio a buddsoddi sydd wedi'u halinio'n agosach at anghenion menywod, babanod a theuluoedd.

- **Datblygu dangosfwrdd amenedigol,** cryfhau gweledded cyflenwad y gweithlu a'r bylchau data ar draws gwasanaethau mamolaeth, amenedigol, anaestheteg obstetrig ac amlbroffesiwn ehangach.

  Cyfraniad at ganlyniadau tymor hwy: Bydd gwella gweledded cyflenwad y gweithlu a'r bylchau data'n cefnogi gwaith cynllunio'r gweithlu mwy rhagweithiol, nodi risgiau a phenderfyniadau buddsoddi, wrth ddarparu sail dystiolaeth gryfach i hysbysu gwaith comisiynu ledled Cymru.

Cyflawniadau galluogi allweddol

- **Cwblhau gwaith modelu cyflenwi bydwreigiaeth** wrth baratoi ar gyfer y droshaen data galw i gefnogi gwaith comisiynu'r gweithlu sy'n seiliedig ar ddata.

  Cyfraniad at ganlyniadau tymor hwy: Mae'r gwaith modelu'n darparu bloc adeiladu hanfodol ar gyfer cynllunio'r gweithlu a gweithgaredd comisiynu yn y dyfodol, gan wella'r ddealltwriaeth o gyflenwad presennol a rhagamcanol y gweithlu a chefnogi datblygiad atebion mwy cynaliadwy i'r gweithlu.

Mae Blwyddyn 1 wedi cryfhau'r wybodaeth, y ffocws ar gadw staff a'r seilwaith cynllunio sydd eu hangen i gefnogi gweithlu mwy cynaliadwy, buddsoddiad wedi'i dargedu a gwneud penderfyniadau ar sail data mewn blynyddoedd i ddod.

2. Addysg a Hyfforddiant

Cynnydd allweddol

Adnoddau dysgu amlbroffesiwn cenedlaethol

- **Datblygu adnodd e-ddysgu Cyfweld Ysgogol cenedlaethol ar Y Tŷ Dysgu** i gefnogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sgyrsiau am newid ymddygiad.

  Cyrhaeddiad ac effaith gynnar: Mae'r adnodd wedi'i weld 11,000 o weithiau, gan arddangos cyrhaeddiad sylweddol a mynediad wedi'i ehangu i ddysgu cenedlaethol cyson ar gyfathrebu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a newid ymddygiad. Cefnogir Cyfweld Ysgogol gan dystiolaeth o'r effeithiau cadarnhaol ar draws amrywiaeth o ymddygiadau sy'n ymwneud ag iechyd, gan gynnwys ymlyniad wrth driniaeth a pharodrwydd i newid (Bischof et al., 2021). Felly, mae ymgysylltu â'r adnodd yn rhoi sail ar gyfer cryfhau gallu'r gweithlu mewn sgyrsiau newid ymddygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

- **Datblygu un Hwb Dysgu Amenedigol cenedlaethol wedi'i alinio â'r Fframwaith Cymhwysedd Craidd Amenedigol.**

  Effaith gynnar: Mae'r Hwb yn darparu un pwynt mynediad cenedlaethol i adnoddau dysgu a chefnogi amenedigol cyflenwol, gan helpu i wella cysondeb a thegwch y mynediad ledled Cymru.

  Rhagor o wybodaeth: Hwb Amenedigol – Porth Y Tŷ Dysgu AaGIC

Fframweithiau safonau a chymhwysedd

Mae fframweithiau safonau a chymhwysedd cenedlaethol a ddatblygwyd yn ystod Blwyddyn 1 yn darparu sail gyson ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, asesu cymhwysedd, datblygiad proffesiynol a chynllunio'r gweithlu. Roedd cymwyseddau wedi'u diffinio'n glir yn nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen ar gyfer ymarfer (Batt et al., 2020), er bod angen asesu eu cyfraniad at gysondeb a gallu'r gweithlu wrth i'r gwaith gweithredu fynd rhagddo.

- **Cyhoeddi'r Safonau Addysg Cymwysedig mewn Arbenigedd i Gymru Gyfan,** gan sefydlu, am y tro cyntaf, fframwaith cenedlaethol cyson ar gyfer addysg nyrsio amenedigol arbenigol.

  Effaith gynnar: Mae'r safonau'n cael eu gweithredu gan fyrddau iechyd a sefydliadau addysg uwch, gan gefnogi cysondeb gwell o ran darparu rhaglenni, datblygu cymhwysedd ac asesu ledled Cymru.

  Rhagor o wybodaeth: Safonau Addysg Cymwysedig mewn Arbenigedd Cymru

- **Datblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Craidd Amenedigol amlbroffesiwn** ar gyfer gwasanaethau mamolaeth ac amenedigol.

  Effaith a ragwelir: Mae'r fframwaith yn sefydlu safonau gofynnol a thargedau ymestyn y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Bydd ei weithrediad yn cefnogi mwy o gysondeb mewn addysg, datblygiad cymhwysedd ac asesu ledled Cymru.

- **Datblygu a Chyhoeddi Fframwaith Cymhwysedd Cymru Gyfan ar gyfer System Brysbennu Obstetrig Symptom-benodol Birmingham (BSOTS),** gyda chymorth gweithredu a ddarperir i fyrddau iechyd drwy Berfformiad a Gwelliant y GIG.

  Effaith a ragwelir: Cyflwynwyd y model BSOTS ledled Cymru; fodd bynnag, bu'r mynediad at hyfforddiant safonol ac asesu cymhwysedd yn amrywiol. Mae Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (2023) yn argymell bod brysbennu mamolaeth yn cael ei ddarparu gan staff mamolaeth sydd wedi'u hyfforddi'n briodol sydd â'r prif gyfrifoldeb o asesu menywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Mae'r holl fyrddau iechyd wedi nodi cynlluniau i weithredu'r fframwaith yn ystod 2026/27, gan gynnwys addysg ac asesu ar sail cymhwysedd ar gyfer y staff perthnasol. Mae gweithgaredd Blwyddyn 1 wedi sefydlu'r fframwaith cenedlaethol a'r cymorth gweithredu sydd eu hangen i alluogi dull gweithredu mwy cyson ar gyfer asesiadau brysbennu obstetrig a gwneud penderfyniadau clinigol ledled Cymru. Bydd hyn yn cael ei gryfhau ymhellach gan y modiwl Gwneud Penderfyniadau Clinigol o Bell a gomisiynwyd, y mae disgwyl iddo gael ei lansio ar ddechrau 2027.

  Rhagor o wybodaeth: Fframwaith Cymhwysedd Cymru Gyfan BSOTS

- **Datblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Gweithiwr Cymorth Amenedigol**

  Effaith a ragwelir: Am y tro cyntaf, bydd y fframwaith yn darparu dull gweithredu cenedlaethol cyson ar gyfer datblygu ac asesu cymhwysedd gweithwyr cymorth amenedigol ledled Cymru. Bydd yn egluro disgwyliadau'r rôl ac yn cefnogi ymarfer diogel, o ansawdd da, sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy addysg safonedig a datblygiad proffesiynol.

Addysg ac efelychiad a gomisiynwyd

- **Cynllun peilot hyfforddiant efelychiad clustffonau rhithwir ar gyfer Archwiliadau Corfforol i Fabanod a Babanod Newydd-anedig Cymru (NIPEC)** mewn dau fwrdd iechyd.

  Effaith a ragwelir: Bydd y cynllun peilot yn gwerthuso a all efelychiad trochol gryfhau hyder, cymhwysedd a chysondeb yn y ddarpariaeth o Archwiliadau Corfforol i Fabanod a Babanod Newydd-anedig Cymru. Mae'n darparu cyfleoedd ar gyfer ymarfer ailadroddus o fewn senarios realistig, safonedig a diogel yn seicolegol, sy'n cefnogi sgiliau archwilio, gwneud penderfyniadau clinigol a chydnabyddiaeth o ganfyddiadau normal ac annormal. Mae'r dull gweithredu wedi'i hysbysu gan dystiolaeth ryngwladol sy'n dangos y gall technolegau trochol gefnogi ymgysylltiad, hyder, gwybodaeth a datblygiad sgiliau, er bod y buddion yn amrywio ar sail y cyd-destun a'r dull gweithredu (Ryan et al., 2022; Sung et al., 2024; Fugate et al., 2025). Bydd y cynllun peilot yn asesu a ellir cyflawni'r buddion hyn a'u cymhwyso'n effeithiol i addysg NIPEC.

  Rhagor o wybodaeth: NIPEC – AaGIC

- **Addysg Gofal Mamolaeth Uwch Lefel 7 wedi'i gomisiynu** drwy raglen gwbl ar-lein i gefnogi'r gweithlu i ymateb i gymhlethdod cynyddol o fewn gwasanaethau mamolaeth.

  Effaith a ragwelir: Disgwylir i'r rhaglen gryfhau'r wybodaeth, y sgiliau a'r penderfyniadau clinigol a wneir yn y gweithlu mamolaeth, gan gynnwys cydnabod, uwchraddio a rheoli dirywiad mamolaeth yn amserol. Mae hyn yn alinio â chanllawiau'r DU sy'n pwysleisio'r cymwyseddau sydd eu hangen i gydnabod salwch acíwt, dechrau gofal priodol ac uwchraddio'n brydlon o fewn timau amlbroffesiwn, gan gefnogi ymarferwyr i ymateb yn ddiogel ac effeithiol i anghenion gofal mamolaeth cynyddol gymhleth (Royal College of Anaesthetists et al., 2018).

  Rhagor o wybodaeth: HCT402: Gofal Mamolaeth Gwell – Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd – Prifysgol Caerdydd

- **Datblygu Diploma Lefel 3 wedi'i achredu gan Agored Cymru mewn Cymorth Amenedigol** ar gyfer gweithwyr cymorth mamolaeth fel rhan o'r fframwaith prentisiaeth.

  Effaith a ragwelir: Mae chwech o'r saith bwrdd iechyd wedi enwebu gweithwyr cymorth mamolaeth ar gyfer y garfan gyntaf, gan arddangos ymgysylltiad cenedlaethol eang cyn ei ddarparu. Am y tro cyntaf yng Nghymru, bydd y cymhwysedd yn darparu dull gweithredu cenedlaethol cyson ac wedi'i achredu ar gyfer addysg gweithwyr cymorth mamolaeth, gan gefnogi mwy o eglurder a chysondeb mewn gallu ac ymarfer rolau.

Datblygiad gyrfa a thrawsnewid y gweithlu

Datblygu'r Fframwaith Gyrfa Nyrsio.

Cyfraniad at ganlyniadau tymor hwy: Mae'r fframwaith yn darparu llwybrau clir a chyson ar gyfer dilyniant gyrfa ar draws parthau clinigol, arweinyddiaeth, addysg, ymchwil a digidol. Mae hyn yn darparu sail ar gyfer datblygu'r gweithlu a chynllunio olyniaeth ar wahanol lefelau ymarfer.

Rhagor o wybodaeth: Fframwaith Gyrfa Nyrsio

Cymorth parhaus i'r Llwybr Portffolio ar gyfer y gweithlu meddygol.

Cyfraniad at ganlyniadau tymor hwy: Mae'r Llwybr Portffolio'n galluogi meddygon Arbenigedd, Arbenigol ac Arbenigol Cyswllt cymwys i arddangos cyfwerthedd â'r cwricwlwm arbenigol perthnasol ac i wneud cais am fynediad i'r Gofrestr Arbenigedd. Gall mynediad at gyngor a chymorth proffesiynol helpu meddygon i lywio'r llwybr, galluogi cydnabyddiaeth o allu presennol, a chyfrannu at ddilyniant gyrfa gyda'r potensial i gyfrannu at gadw'r gweithlu.

Rhagor o wybodaeth: Llwybr portffolio



3. Arweinyddiaeth a Diwylliant

Gan gydnabod y berthynas hanfodol rhwng arweinyddiaeth effeithiol, llesiant y gweithlu a darparu gofal diogel o ansawdd uchel, mae Blwyddyn 1 wedi canolbwyntio ar gryfhau goruchwyliaeth glinigol, arweinyddiaeth dosturiol a datblygu tîm amlbroffesiwn ar draws gwasanaethau amenedigol.

Goruchwyliaeth glinigol a chymorth i'r gweithlu

- **Cwblhau gwerthusiad Cymru gyfan o'r model Goruchwyliaeth Glinigol i Fydwragedd,** gan gryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer canllawiau, llywodraethiant, monitro a chynaliadwyedd hirdymor yn y dyfodol.

  Effaith gynnar: Cadarnhaodd y gwerthusiad werth yr oruchwyliaeth glinigol mewn cefnogi llesiant, a hyder proffesiynol ochr yn ochr â'i gyfraniad posibl at gadw staff. Bydd ei argymhellion yn hysbysu'r camau gweithredu i wella cysondeb, mynediad, llywodraethiant a chynaliadwyedd y model ledled Cymru yn y dyfodol.

  Rhagor o wybodaeth: Gwerthusiad Cymru Gyfan o Oruchwyliaeth Glinigol ar gyfer Bydwragedd

- **Cyllid wedi'i sicrhau i Oruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd ymgymryd â'r modiwl Eiriolwr Proffesiynol Lefel 7,** i gefnogi datblygiad capasiti a gallu goruchwylio.

  Cyrhaeddiad ac effaith gynnar: Derbyniodd chwech o'r saith bwrdd iechyd y cynnig, gan arddangos ymgysylltiad cenedlaethol eang. Bydd y buddsoddiad hwn yn cynyddu nifer y goruchwylwyr sydd wedi'u paratoi'n briodol ac yn cefnogi cynaliadwyedd tymor hwy goruchwyliaeth glinigol i fydwragedd ledled Cymru. Cydnabyddir goruchwyliaeth glinigol fel ffurf bwysig o gefnogaeth broffesiynol, gyda'r dystiolaeth yn dangos buddion posibl ar gyfer ymarfer myfyriol, hyder proffesiynol a llesiant y gweithlu, wrth amlygu hefyd yr angen am weithrediad cyson a gwerthusiad pellach (Gill-Meeley et al., 2025).

Arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol

- **Datblygu arweinyddiaeth dosturiol estynedig,** gyda mwy na 600 o weithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth yn cwblhau rhaglenni hyfforddi'r hyfforddwr.

  Cyrhaeddiad ac effaith gynnar: Mae'r cyfranogwyr wedi datblygu'r gallu i hwyluso dysgu arweinyddiaeth dosturiol yn lleol, gan gynyddu'r capasiti cyflenwi ar draws GIG Cymru. Bydd gwerthusiadau yn y dyfodol yn asesu cyrhaeddiad dysgu a ddarperir yn lleol a'i gyfraniad tuag at ymarfer arweinyddiaeth, profiad staff a diwylliant tîm.

- **Cynnal cynllun peilot Ymyriad Gwaith Tîm Amenedigol amlbroffesiwn pum sesiwn mewn cydweithrediad â'r Athro Michael West,** a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu timau perfformiad uchel, cryfhau cydweithio amlbroffesiwn, a chymhwyso egwyddorion gwaith tîm ar sail tystiolaeth o fewn gwasanaethau amenedigol. Defnyddiodd y gwerthusiad cychwynnol fframwaith gwerthuso Kirkpatrick, gyda gwerthusiad dilynol o fewn chwe mis yn defnyddio'r fethodoleg Newid Mwyaf Arwyddocaol i hysbysu'r datblygiadau a'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

  Effaith gynnar: Sefydlodd y cynllun peilot sail gadarn ar gyfer cryfhau cydweithio aml-broffesiwn a meithrin diwylliannau tîm cadarnhaol ar draws gwasanaethau amenedigol. Mae'r canfyddiadau gwerthuso cynnar yn dangos newidiadau ystyrlon mewn ymddygiadau arweinyddiaeth a deinameg timau, gyda'r cyfranogwyr yn adrodd mwy o hyder, cydweithio gwell a ffyrdd mwy effeithiol o weithio ar draws ffiniau proffesiynol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall ymyriadau gwaith tîm strwythuredig gryfhau cyfathrebu, arweinyddiaeth, cydgysylltu a dealltwriaeth a rennir, y maent oll yn nodweddion pwysig timau gofal iechyd effeithiol (Buljac-Samardzic, Doekhie a van Wijngaarden, 2020). Bydd gwaith gwerthuso parhaus yn asesu cynaliadwyedd y newidiadau a adroddwyd, eu gweithrediad ymarferol o fewn lleoliadau gweithio, a chyfraniad yr ymyriad at brofiad y gweithlu, gweithrediad timau a gwella'r gwasanaeth, gan hysbysu penderfyniadau ynghylch y ddarpariaeth a gweithrediad ehangach yn y dyfodol.

Cydweithio, datblygu ymarfer a gwella

- **Paratoadau wedi'u cwblhau i sefydlu Fforwm Datblygu Ymarfer i Fydwragedd,** sy'n dwyn ynghyd arweinwyr datblygu ymarfer o bob cwr o Gymru i gefnogi cydweithio, dysgu a rennir a dull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer addysg, gwella ansawdd a datblygu'r gweithlu.

  Effaith a ragwelir: Unwaith y bydd wedi'i sefydlu, bydd y fforwm yn cryfhau rhwydweithiau proffesiynol ac yn darparu mecanwaith cenedlaethol ar gyfer rhannu arferion da, lleihau dyblygu a gwella'r aliniad mewn addysg, datblygu ymarfer a gweithgaredd gwella ar draws y byrddau iechyd.

4. Trawsnewid y Gweithlu

Mae Blwyddyn 1 wedi canolbwyntio ar alluogwyr allweddol trawsnewid y gweithlu, gan gydnabod bod newid cynaliadwy'n dibynnu ar wybodaeth ansawdd uchel am y gweithlu, gallu digidol, arloesedd, capasiti ymchwil a dulliau gweithredu cenedlaethol cydgysylltiedig ar gyfer datblygu'r gweithlu.

Mae'r adnoddau cenedlaethol hyn ar gael i'r gweithlu amenedigol fel rhan o seilwaith trawsnewid y gweithlu ehangach AaGIC.

Cynnydd allweddol

- **Darparu offer ymarferol i'r gweithlu ac adnoddau data,** gan gynnwys Pecyn Cymorth Rheolwyr Wardiau, Pecyn Cymorth Gweithredu Cadw Staff a'r dangosfwrdd ategol, i helpu arweinwyr lleol i nodi pwysau ar y gweithlu, targedu gweithgaredd cadw staff a hysbysu penderfyniadau cynllunio'r gweithlu.

  Cyfraniad at ganlyniadau tymor hwy: Mae'r offer yn rhoi adnoddau ymarferol i arweinwyr lleol nodi pwysau ar y gweithlu, targedu gweithgaredd cadw staff a hysbysu penderfyniadau cynllunio'r gweithlu. Mae gweithredu cynnar wedi'i gefnogi drwy weminarau amenedigol a nyrsio cenedlaethol, sydd wedi arddangos ymgysylltiad da ac adborth da gan y defnyddwyr. Er bod y canfyddiadau hyn yn dangos cyrhaeddiad cynnar a gwerth canfyddedig, bydd gwerthusiadau yn y dyfodol yn asesu i ba raddau y mae'r offer yn cael eu mabwysiadu'n ymarferol ac yn cyfrannu at ganlyniadau'r gweithlu lleol dros amser.

- **Cyhoeddi geirfa rolau aml-broffesiwn amenedigol** i wella eglurder rolau, cefnogi datblygiad gyrfa a hysbysu'r gwaith o gynllunio'r gweithlu lleol.

  Cyfraniad at ganlyniadau tymor hwy: Mae'r eirfa yn darparu dealltwriaeth a rennir o rolau ar draws y gweithlu amenedigol, gan gefnogi llwybrau gyrfa mwy eglur, gweithio aml-broffesiwn a chynllunio'r gweithlu yn fwy effeithiol ar draws gwasanaethau.

- **Cefnogi mwy o hyblygrwydd mewn hyfforddiant meddygon** preswyl drwy weithio'n llai na llawn amser, cyflymu'r hyfforddiant a chydnabod cymwyseddau a gafwyd yn flaenorol.

  Cyfraniad at ganlyniadau tymor hwy: Mae mwy o hyblygrwydd mewn llwybrau hyfforddi yn galluogi meddygon i wneud cynnydd mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu amgylchiadau unigol ac anghenion y gwasanaeth yn well, gan ddarparu sylfaen ar gyfer profiad gwell i hyfforddeion, a allai o bosibl gyfrannu at gadw staff a chyflenwi'r gweithlu.

- **Parhau i gefnogi gallu yn y Gymraeg ar draws y gweithlu** drwy adnoddau dysgu cenedlaethol, gan gynnwys Agor y Drws, a mentrau datblygu ehangach y gweithlu.

  Cyfraniad at ganlyniadau tymor hwy: Mae'r adnoddau hyn yn rhoi cyfleoedd i'r gweithlu ddatblygu a chymhwyso gallu yn y Gymraeg, gan gyfrannu at wasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn a chefnogi darparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Heriau a Dysgu

Mae heriau'r gweithlu amenedigol yn parhau i fod yn gymhleth ac wedi'u cydgysylltu, ac maent wedi'u llywio gan gymhlethdod y gofal sy'n cynyddu, disgwyliadau'r gweithlu sy'n esblygu a cham-aliniad rhwng yr allbwn addysg, cyfleoedd am gyflogaeth a'r galw ar y gweithlu. Mae nifer o gamau ym Mlwyddyn 1 wedi canolbwyntio ar sefydlu'r sylfeini ar gyfer trawsnewid tymor hwy ac nid oedd disgwyl iddynt gynhyrchu canlyniadau mesuradwy o ran y gweithlu neu'r gwasanaeth o fewn y flwyddyn gyntaf. Bydd angen sylw parhaus ym Mlynyddoedd 2 a 3 i gryfhau'r aliniad rhwng addysg, cynllunio'r gweithlu ac anghenion y gwasanaeth, cefnogi gweithio ar draws ffiniau, a galluogi gweithrediad lleol cyson dulliau gweithredu cenedlaethol.

Mae'r hyn a ddysgwyd o Flwyddyn 1 wedi cadarnhau pwysigrwydd yr hyn a ganlyn:

- Data o ansawdd uchel, cyson ac amserol ar y gweithlu
- Aliniad agosach rhwng llwybrau addysg, cyfleoedd cyflogaeth a'r galw ar y gweithlu
- Cydgysylltiad cenedlaethol wedi'i gefnogi gan berchnogaeth a gweithrediad lleol clir
- Gweithio mewn partneriaeth effeithiol ar draws ffiniau sefydliadau a phroffesiynol
- Buddsoddiad parhaus mewn arweinyddiaeth, goruchwyliaeth, llesiant a datblygu'r gweithlu
- Gwerthusiad cymesur o gyrhaeddiad, gweithrediad, canlyniadau cynnar a chyfraniad at newid tymor hwy.



Edrych i'r dyfodol: Blaenoriaethau ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3

Ym Mlynyddoedd 2 a 3, bydd y ddarpariaeth yn parhau i ganolbwyntio ar y camau a nodir yn y Cynllun, cryfhau gwydnwch y gweithlu, gwella gallu cynllunio a chefnogi gwelliannau cynaliadwy i'r gwasanaeth ar draws gofal amenedigol. Bydd mwy o bwyslais yn cael ei roi ar alinio llwybrau addysg, y galw ar y gweithlu a chyfleoedd cyflogaeth i sicrhau bod buddsoddiad yn y gweithlu'n ymateb yn effeithiol i anghenion y gwasanaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae cyhoeddi'r **Amos Report (2026)** a'r **Ockenden Review (2026)** yn ogystal ag **Y llwybr tuag at ddechrau mwy diogel yng Nghymru (2026)** wedi cadarnhau pwysigrwydd y gweithlu fel galluogwr allweddol ar gyfer gofal mamolaeth ac amenedigol diogel o safon uchel. Gyda'i gilydd, mae'r adolygiadau hyn yn amlygu'r angen am gapasiti a gallu digonol yn y gweithlu, arweinyddiaeth a diwylliant cryf, gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol effeithiol, llywodraethiant a systemau dysgu cadarn, a defnydd gwell o wybodaeth am y gweithlu a'r gwasanaeth. Mae'r blaenoriaethau hyn yn alinio'n agos ag uchelgeisiau'r Cynllun Gweithlu Amenedigol Strategol ac yn darparu ysgogiad o'r newydd i gryfhau'r gwaith o gynllunio ar gyfer y gweithlu a gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ledled Cymru.

Mae'r adroddiadau hefyd yn cadarnhau pwysigrwydd mesur capasiti, gallu a lleoliad y gweithlu mewn ffordd fwy cyson i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gwasanaeth, gwella ansawdd a diogelwch cleifion.

Neilltuwyd cam gweithredu penodol i AaGIC o fewn yr Adroddiad Y llwybr tuag at ddechrau mwy diogel i ddatblygu offeryn cynllunio'r gweithlu i gefnogi penderfyniadau am y gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae gwaith cwmpasu ar waith, gyda'r trafodaethau meincnodi cynnar wedi'u cynnal ledled y DU ac yn rhyngwladol er mwyn deall yr offer, methodolegau a dulliau gweithredu sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd a'r potensial i'w cymhwyso yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn hysbysu'r argymhellion ar gyfer y cam datblygu nesaf yn ystod 2026/27.


Bydd y cynnydd a'r sail dystiolaeth sy'n datblygu yn cael eu monitro drwy lywodraethiant sefydledig y rhaglen, adroddiadau rheolaidd a gwybodaeth am y gweithlu sy'n esblygu. Y blaenoriaethau fydd:

- Cryfhau'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a'i wydnwch drwy wybodaeth, modelu, a data gwell a dull gweithredu aml-broffesiwn ar gyfer cynllunio'r gweithlu
- Gwella'r aliniad rhwng comisiynu addysg, y galw ar y gweithlu, cyfleoedd cyflogaeth a gofynion y gwasanaeth yn y dyfodol
- Datblygu blaenoriaethau datblygu cenedlaethol ar addysg a'r gweithlu, gan gynnwys llwybrau gyrfaol, addysg arbenigol a dysgu aml-broffesiwn
- Ymwreiddio arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol a chryfhau diwylliant y sefydliad, gyda ffocws parhaus ar degwch, diogelwch seicolegol a llesiant y gweithlu
- Meithrin gallu digidol, ymchwil a gwella i gefnogi trawsnewid cynaliadwy ar draws gwasanaethau amenedigol.

Casgliadau

Mae Blwyddyn 1 o'r **Cynllun Gweithlu Amenedigol Strategol** wedi sefydlu'r llywodraethiant, y safonau cenedlaethol, yr wybodaeth am y gweithlu a'r seilwaith datblygu sydd eu hangen i gefnogi'r cam cyflenwi nesaf. Mae'r cyflawniadau cynnydd a sylfaenol yn amlwg drwy'r wybodaeth gryfach ar y gweithlu, mwy o gynnydd mewn datblygu addysg a chymhwysedd, arweinyddiaeth estynedig a chymorth goruchwylio, a mynediad gwell at adnoddau dysgu cenedlaethol.

Ym mlynyddoedd 2 a 3, bydd y ffocws yn symud yn gynyddol o ddatblygiad i weithrediad, gydag aliniad agosach rhwng y gofynion cyflogaeth a'r gweithlu. Bydd gwerthuso parhaus a datblygu gwybodaeth am y gweithlu'n cryfhau'r ddealltwriaeth o gyfraniad y Cynllun at gynaliadwyedd y gweithlu, ei brofiad, gwella'r gwasanaeth a chanlyniadau gofal amenedigol ledled Cymru.



Cyfeiriadau

Batt, A.M., Tavares, W. a Williams, B. (2020) 'The development of competency frameworks in healthcare professions: a scoping review', Advances in Health Sciences Education, 25(4), tt. 913–987. Ar gael yn: The development of competency frameworks in healthcare professions: a scoping review - PubMed (Cyrchwyd: 14 Medi 2026).

Bischof, G., Bischof, A. a Rumpf, H.J. (2021) 'Motivational interviewing: an evidence-based approach for use in medical practice', Deutsches Ärzteblatt International, 118(7), tt. 109–115. Ar gael yn: Motivational Interviewing: An Evidence-Based Approach for Use in Medical Practice - PMC (Cyrchwyd: 14 Medi 2026).

Buljac-Samardzic, M., Doekhie, K.D. a van Wijngaarden, J.D.H. (2020) 'Interventions to improve team effectiveness within health care: a systematic review of the past decade', Human Resources for Health, 18, article 2. Ar gael yn: https://doi.org/10.1186/s12960-019-0411-3 (Cyrchwyd: 14 Medi 2026).

Fugate, J.M.B., Tonsager, M.J. a Macrine, S.L. (2025) 'Immersive Extended Reality (I-XR) in medical and nursing for skill competency and knowledge acquisition: a systematic review and implications for pedagogical practices', Behavioral Sciences, 15(4), 468. Ar gael yn: Immersive Extended Reality (I-XR) in Medical and Nursing for Skill Competency and Knowledge Acquisition: A Systematic Review and Implications for Pedagogical Practices - PMC (Cyrchwyd: 14 Medi 2026).

Gill-Meeley, N., Hernon, O., Frawley, T., Cuddihy, C. a Smyth, S. (2025) 'Nurses' and midwives' experiences of clinical supervision in practice: a scoping review', Journal of Clinical Nursing, 34(5), tt. 1555–1579. Cyhoeddwyd gyntaf ar-lein 27 Tachwedd 2024. Ar gael yn: https://pmc.ncbi.nlm.nih.gov/articles/PMC12037938/ (Cyrchwyd: 14 Medi 2026).

Llywodraeth Cymru (2026). Y llwybr tuag at ddechrau mwy diogel yng Nghymru. Ar gael yn: Y llwybr tuag at ddechrau mwy diogel yng Nghymru (Cyrchwyd: 14 Medi 2026).

Maternity and Newborn Safety Investigations (2026) Independent Investigation into Maternity and Neonatal Services in England Final report and recommendations (Amos) Report. Ar gael yn: https://www.matneoinv.org.uk/final-reports/ (Cyrchwyd: 14 Medi 2026).

Ockenden, D. (2026) Findings, Conclusions and Essential Actions from the Independent Review of Maternity Services at Nottingham University Hospitals NHS Trust. Ar gael yn: Findings, conclusions and essential actions from the independent review of maternity services at Nottingham University Hospitals NHS Trust (Cyrchwyd: 14 Medi 2026).

Royal College of Anaesthetists, Royal College of Obstetricians and Gynaecologists, Royal College of Midwives, Intensive Care Society, Faculty of Intensive Care Medicine and Obstetric Anaesthetists' Association (2018) Care of the critically ill woman in childbirth: enhanced maternal care. Llundain: Royal College of Anaesthetists. Ar gael yn: https://www.rcoa.ac.uk/sites/default/files/documents/2019-09/EMC-Guidelines2018.pdf (Cyrchwyd: 14 Medi 2026).

Royal College of Obstetricians and Gynaecologists (2023) Maternity Triage (Good Practice Paper No. 17). London: RCOG. Ar gael yn: https://www.rcog.org.uk/media/bu3l4x0g/17-maternity-triage-final-publication-proof.pdf (Cyrchwyd: 14 Medi 2026)

Ryan, G.V., Callaghan, S., Rafferty, A., Higgins, M.F., Mangina, E. a McAuliffe, F. (2022) 'Learning outcomes of immersive technologies in health care student education: systematic review of the literature', Journal of Medical Internet Research, 24(2). Ar gael yn: Learning Outcomes of Immersive Technologies in Health Care Student Education: Systematic Review of the Literature - PubMed (Cyrchwyd: 14 Medi 2026).

Sung, H., Kim, M., Park, J., Shin, N. a Han, Y. (2024) 'Effectiveness of virtual reality in healthcare education: systematic review and meta-analysis', Sustainability, 16(19), 8520. Ar gael yn: Effectiveness of Virtual Reality in Healthcare Education: Systematic Review and Meta-Analysis (Cyrchwyd: 14 Medi 2026).




Atodiad Un – Data'r Gweithlu

Bydwreigiaeth


Ym mis Ionawr 2026, roedd 1,932 o fydwragedd cofrestredig yn gweithio o fewn byrddau iechyd Cymru (1,578.3 o unedau cyfwerth ag amser llawn (FTE)), sy'n cynrychioli twf o 6.9% yn nifer yr unigolion dros y degawd diwethaf.

Cyfraddau trosiant bydwragedd dros gyfnodau 12 mis treigl ar gyfer mis Hydref bob blwyddyn



Yn ogystal, mae data treigl 12 mis yn dangos gwelliant clir a pharhaus yn sefydlogrwydd y gweithlu bydwreigiaeth dros y blynyddoedd diweddar. Yn dilyn cynnydd graddol yn y gyfradd troi drosodd rhwng 2016 a 2019, cyrhaeddodd y cyfraddau uchafbwynt yn ystod cyfnod COVID-19 yn 2021–22, gan adlewyrchu pwysau hysbys ar y gweithlu. Ers 2023, fodd bynnag, mae'r gyfradd troi drosodd wedi gostwng yn gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan ostwng o 7.0% yn 2023 i 5.4% yn 2024, ac i 3.8% yn 2025. Dyma'r lefel isaf a welwyd ar draws y gyfres amser, ac mae'n sylweddol is na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Mae'r duedd barhaus tuag i lawr yn awgrymu gwelliant gwirioneddol o ran cadw staff, yn hytrach nag amrywiad tymor byr, ac mae'n dynodi mwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu o fewn gwasanaethau bydwreigiaeth.

Nifer y pennau a chyfanswm WTE wedi'i gontractio yn ôl mis




GIG Cymru (2026) Gweithlu Amenedigol – Dangosfwrdd Power BI: AaGIC Newid dros amser, hidlydd: Bydwraig Ymgynghorol/Bydwraig Gofrestredig. Dangosfwrdd mewnol. (Cyrchwyd: 1 Hydref 2026).

Staff Meddygol Obstetreg a Gynaecoleg

Mae nifer y staff meddygol cyfwerth ag amser llawn (FTE) ym maes obstetreg a gynaecoleg wedi tyfu'n gyson rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Ionawr 2026. Mae ymgysylltu wedi'i dargedu – gan gynnwys cyfleoedd profi i feddygon ar y rhaglen sylfaen – wedi helpu i wella recriwtio i hyfforddiant mewn Obstetreg a Gynaecoleg yng Nghymru, gyda chyfradd llenwi o 100% ar gyfer y swyddi presennol.


Bydd y gwelliant mewn recriwtio i hyfforddiant Obstetreg a Gynaecoleg yn parhau i gael ei fonitro, er mwyn gweld a yw hyn yn arwain at gyflenwad parhaus o ymgynghorwyr yn y gweithlu.

FTE o fis Gorffennaf hyd at fis Ionawr 2026



GIG Cymru (2026) Gweithlu ESR – Dangosfwrdd Power BI: Hidlydd: Meddygol/ Deintyddol, Obstetreg a Gynaecoleg. Dangosfwrdd mewnol. (Cyrchwyd: 27 Ebrill 2026)

Siart llif yn dangos allbwn CCT preswylwyr yn ôl blwyddyn hyfforddi



Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2026) Dangosfwrdd Hyfforddeion CCT (dangosfwrdd mewnol Power BI). Hidlydd wedi'i gymhwyso: Obstetreg a Gynaecoleg. (Cyrchwyd: 27 Ebrill 2026).


Gweithlu Meddygol Pediatrig

Mae heriau wrth gael data ar gyfer neonatolegwyr oherwydd y llwybr hyfforddi sy'n gysylltiedig â phediatreg. Felly, fel mesur dirprwyol, cyflwynir data ar nifer y pediatregwyr a'r dystysgrif cwblhau hyfforddiant (CCT).

Mae nifer y pediatregwyr wedi cynyddu o 580 (Mawrth 2019) i 726 (Ionawr 2026).


Mae'r mesur dirprwyol hwn ar gyfer cynllunio'r gweithlu meddygol neonatolegol yn ddefnyddiol; fodd bynnag, mae'n tynnu sylw at yr angen am ddata mwy penodol ar y gweithlu neonatolegol mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Nifer y personau o Fawrth 2019 i Ionawr 2026



GIG Cymru (2026) Gweithlu ESR – Dangosfwrdd Power BI: Hidlydd: Meddygol/ Deintyddol, Pediatreg a Llawfeddygaeth Bediatrig. Dangosfwrdd mewnol. (Cyrchwyd: 27 Ebrill 2026).

Siart llif yn dangos allbwn CCT preswylwyr yn ôl blwyddyn hyfforddi




Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2026) Dangosfwrdd Hyfforddeion CCT (dangosfwrdd mewnol Power BI). Hidlydd wedi'i gymhwyso: Pediatreg a Llawfeddygaeth Pediatrig (Cyrchwyd: 27 Ebrill 2026).

Nyrsio Newyddenedigol

Ym mis Ionawr 2026, roedd 584 o Nyrsys y Newydd-anedig yn gweithio yn GIG Cymru (512.5 FTE). Dros y 10 mlynedd diwethaf, cynyddodd y gweithlu nyrsio Newydd-anedig 110 o staff o ran nifer y staff (+23.2%) a 102.4 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (+24.9%), sy'n dangos twf sylweddol yng ngallu'r gweithlu.

Mae'r twf hwn yn dangos cynnydd yng ngallu'r gweithlu nyrsio newyddenedigol, ond dylid ei ystyried ochr yn ochr â chraffter, nifer o gotiau, galw am wasanaeth a gofynion addysgol Cymwys mewn Arbenigedd.

Nifer y pennau a chyfanswm WTE wedi'i gontractio yn ôl mis




GIG Cymru (2026) Gweithlu Amenedigol – Dangosfwrdd Power BI: HEIW Newid dros amser, hidlydd: Nyrsys Newydd-anedig. Dangosfwrdd mewnol (Cyrchwyd: 1 Hydref 2026).

Anaestheteg Obstetreg

Oherwydd heriau wrth gael data staff anesthetig obstetrig, defnyddir data gweithlu anesthetig fel mesur dirprwyol. Ym mis Ionawr 2026, roedd 982 o anesthetyddion yn gweithio o fewn GIG Cymru. Mae'r data anesthetig cyffredinol yn parhau i ddangos cadw cryf o'i gymharu â'r arbenigeddau eraill, gyda'r garfan 2024/25 yn dangos 91% yn cael eu cadw mewn Byrddau Iechyd Cymru.


Mae'r sefyllfa gadw yn ymddangos yn gadarnhaol, ond mae defnyddio data anesthetig ehangach yn golygu bod angen gwaith pellach i gryfhau deallusrwydd gweithlu anesthetig penodol i obstetrig.

Nifer y personau o Fawrth 2019 i Ionawr 2026



GIG Cymru (2026) Gweithlu ESR – Dangosfwrdd Power BI: Hidlydd: Meddygol/ Deintyddol, Anaestheteg. Dangosfwrdd mewnol. (Cyrchwyd: 27 Ebrill 2026).

Siart llif yn dangos allbwn CCT preswylwyr yn ôl blwyddyn hyfforddi



Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2026) Dangosfwrdd Hyfforddeion CCT (dangosfwrdd mewnol Power BI). Hidlydd wedi'i gymhwyso: Anaestheteg. (Cyrchwyd: 27 Ebrill 2026).

Cadw Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gweithwyr Proffesiynol Gwyddor Gofal Iechyd

Mae heriau wrth nodi staff sy'n Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ac yn staff Gwyddorau Gofal Iechyd sy'n gweithio o fewn gwasanaethau amenedigol, gan fod llawer yn cyfrannu at ofal amenedigol fel rhan o rôl ehangach. Fodd bynnag, o ran grwpiau proffesiynol ar draws GIG Cymru, gwelwyd y gwelliannau canlynol o ran trosiant staff rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2025:

- Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd: 6.5% i 6.1% (0.4 pwynt canran; gostyngiad o 6.2%).
- Gwyddorau Gofal Iechyd: 6.5% i 5.2% (1.3 pwynt canran; gostyngiad o 20%).

Mae'r gwelliannau hyn yn galonogol, ond mae'r diffyg data sy'n benodol i faes amenedigol yn cyfyngu ar y gallu i ddeall pwysau ar y gweithlu o fewn llwybrau mamolaeth a newyddenedigol.

Salwch a Demograffeg ar gyfer Bydwreigiaeth, Nyrsio Newydd-anedig a Gweithwyr Cymorth


Oherwydd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag archwilio gwybodaeth am salwch a demograffeg ar gyfer y boblogaeth berinatal gyfan, ceir isod gipolwg ar y data cadarn sydd gennym ar gyfer Bydwragedd, Nyrsys y Newydd-anedig a staff gweithwyr cymorth.

Mae cyfradd salwch bydwragedd, nyrsys y newydd-anedig a staff cymorth yn amrywio dros amser ond mae'n parhau'n gyson yn uwch na chyfartaledd GIG Cymru, gan gyrraedd uchafbwynt o tua 9% ddechrau 2025 cyn gostwng ac yna codi eto tua diwedd y cyfnod. Er bod rhywfaint o amrywiad o fis i fis, mae'r patrwm cyffredinol yn awgrymu bwlch parhaus o tua 1–2 pwynt canran uwchlaw'r meincnod cenedlaethol.

Yn ôl grŵp staff, mae cyfraddau salwch yn amrywio'n eithaf amlwg, gyda Chymorth i Famolaeth yn dangos y lefel uchaf ar 11%, yn amlwg uwchlaw pob grŵp arall. Mae

Bydwragedd Cofrestredig a Rheolwyr/Ymgynghorwyr Bydwragedd ill dau tua 7%, tra bod gan Nyrsys Mamolaeth y gyfradd isaf ar tua 5%, sy'n dynodi amrywiad yn ôl rôl yn hytrach na thuedd unffurf.

Cyfradd Salwch dros amser





Mae proffil y gweithlu ar gyfer bydwragedd, nyrsys y newydd-anedig a gweithwyr cymorth ym mis Ionawr 2026 yn fenywaidd yn bennaf, gyda nifer fach iawn o staff gwrywaidd, ac mae'n cynnwys unigolion rhwng 30 a 44 oed yn bennaf, gyda llai o staff o dan 25 oed.

Ar draws y gweithlu, mae'r rhan fwyaf o staff yn nodi eu hunain fel dinasyddion Gwyn a'r DU, gyda chynrychiolaeth lai o grwpiau ethnig eraill a staff rhyngwladol; nid yw'r mwyafrif yn nodi unrhyw anabledd, er bod cyfran nodedig o gofnodion naill ai heb eu datgan neu heb eu nodi, sy'n dangos rhai bylchau yng nghyflawnrwydd data demograffig.


Mae'r proffil hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd strategaethau denu, cadw a datblygu gyrfa cynhwysol, ochr yn ochr â gwelliant parhaus yng nghyflawnrwydd data cydraddoldeb y gweithlu.

Cyfradd salwch yn ôl grŵp staff a band







Oed




Ethnigrwydd




Cenedligrwydd



Statws Anabledd



Lle cofrestru (MMC a GMC)



GIG CYMRU NHS WALES

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

